Annwyl Bawb

E-FWLETIN 30 GORFFENNAF 2008

Dyma'r e-fwletin diweddaraf yn cynnwys newyddion am Morlan a manylion am yr hyn sy'n digwydd yma dros yr wythnosau nesaf.

- Soniwyd yn yr e-fwletin diwethaf am y ddau gyngerdd sy'n cael eu cynnal yma fel rhan o'r Gyngres Geltaidd Ryngwladol. **Cyngerdd Ieuenctid** sydd heno am 8 o'r gloch, ac mae'r artistiaid yn cynnwys Côr Aelwyd Ger y Lli, Emyr Evans a Mared Emyr Pugh-Evans. Cost tocynnau yw £5 (£3) ac maent ar gael o Swyddfa'r Bwrdd Croeso, Ffordd y Môr, neu wrth y drws.
- Yna am 8 o'r gloch nos yfory (1 Awst), ceir **Cyngerdd Rhyngwladol Celtaidd** gyda Griogair Labhruidh o'r Alban, Guillanton o Lydaw, Ensemble Ysgol y Delyn Bro Ystwyth, Morys Ioan a Dafydd Jones o Gymru, Éanna Ó Croínin a Deirdre Nic Éanruig o Iwerddon, Mike O'Connor o Gernyw a The Reeling Stones o Ynys Manaw. Mae'r tocynnau ar gyfer y noson hon hefyd ar gael o Swyddfa'r Bwrdd Croeso neu wrth y drws ac yn costio £7.50 (£5).
- Ganol Awst daw Cynhadledd Flynyddol Mudiad Efengylaidd Cymru i Aberystwyth ac, o 12-15 Awst, bydd ganddynt **Siop Lyfrau** ac **Arddangosfa Cenadaethau** ym Morlan gyda rhyw 30 o arddangoswyr yn cymryd rhan.
- Ar ddydd Sadwrn a dydd Sul penwythnos gŵyl banc Awst (23-24 Awst) y mae'r Morlan wedi'i logi ar gyfer **Gweithdy Telyn** dan arweiniad Bill Taylor sy'n arbenigwr ar berfformio cerddoriaeth telyn hynafol o Iwerddon, yr Alban a Chymru. Ef yw'r person mwyaf blaenllaw ar ddehongli llawysgrif Robert ap Huw, sy'n cynnwys y gerddoriaeth gynharaf ar gyfer y delyn o unrhyw le yn Ewrop, a bydd yn arwain gweithdy ym Morlan ar chwarae cerddoriaeth o'r llawysgrif hwn. Noddir y gweithdy gan Gangen Bryste a Gorllewin Lloegr o Gymdeithas y Clarsach (gwybodaeth bellach ar gael o Lynda Payne ar 01386-792422).
- Nodir eto manylion y ddau ddigwyddiad y mae Morlan wedi'u trefnu ar gyfer mis Medi, sef perfformiad Cwmni Theatr Cydweithredol Troed y Rhiw o ***Blodeuwedd*** ar nos Sadwrn, 27 Medi, a **Dweud ei Ddweud** gyda'r Athro Gareth Wyn Jones, Bangor ar y thema *"Tswnamis Bach a Mawr*" ar nos Lun, 29 Medi. Mae'r ddwy noson yn cychwyn am 7.30.

Os gwyddoch chi am unrhyw rai fyddai â diddordeb mewn cael gwybod am beth sy'n mynd ymlaen ym Morlan, mae pob croeso i chi anfon yr e-fwletin hwn ymlaen atyn nhw.

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-fwletin hwn bellach, rhowch wybod i ni trwy ateb y neges hon ac fe dynnwn eich enw o'r rhestr postio ar unwaith.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr